Clonc Clydau

Rhifyn 37 Ysgol Gynradd Clydau Tymor yr Hydref 2018

Cyngor Cymreictod

Er mwyn hybu cymreictod yn bellach o fewn a thu allan yr ysgol etholwyd aelodau i'r Cyngor Cymreictod. Mae'r cyngor yn gweithio tuag at cyflawni elfennau o Wobr Arian o'r Siarter Iaith. Yn dilyn holiaduron ar ddechrau'r tymor, blaenoriaeth y Cyngor Cymreictod yw i gael disgyblion i siarad Cymraeg ar yr iard chwarae ynghyd â gwrando ar gerddoriaeth cymraeg. Etholwyd y disgyblion canlynol:- Cian Lewis ac Elliott Bailey-Williams (Cadeiryddion), Awen Lewis (Ysgrifenyddes), Dafydd Davies (Is-Ysgrifennydd), Ffion Bowen, Alana James, Amy Beynon, Elisha Young a Dara Adamson. Eu swyddogaeth yw i sicrhau ein bod yn dathlu digwyddiadau cymreig, sicrhau bod y disgyblion yn siarad cymraeg â'i gilydd ac enwebu Cymro neu Cymraes yr wythnos. I ddathlu dwirnod Shwmae trefnwyd bod y disgyblion yn gwisgo fel arwyr Cymru.

Ar ddydd Mercher Hydref 3ydd bu Cian Lewis, Jasmine Harris, Awen Lewis a Dafydd Davies ar ddiwrnod Hybu Cymreictod y Sir yn Hwlffordd. Cafwyd y cyfle i glywed am Wobr Arian y Siarter Iaith a rhannu syniadau ag ysgolion eraill ynghyd.

Aelodau'r Cyngor Cymreictod



Diwrnod Cymreictod y Sir

Cyngor Ysgol

Pwy yw Pwy ar y Cyngor Ysgol?

Penodwyd 11 disgybl eleni eto ar gyfer y Cyngor Ysgol. Y Cadeirydd eleni yw Jasmine Harris ac yn Is- Gadeirio mae Haydn Ditcher, Mitchell Sherwood yw'r Ysgrifenydd a Chloe Drewett yw'r Darlunydd. Mae Dyfan Ifans-Lloyd, Henri Owen, Gwenno Francis, Lilly Robertson-Williams, Ethan Williams, Cadi Howell a Ripley Circus yn cynorthwyo gyda holl waith y cyngor.

Penderfynodd y Cyngor Ysgol drefnu fod pawb yn gwisgo dillad eu hunain neu dillad smotiog a chynnal cystadlaethau niferus er mwyn codi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Ar ddiwedd y dydd casglwyd swm o £134.15 tuag at yr elusen.

Aelodau'r Cyngor Ysgol

Diwrnod Plant Mewn Angen

Ymweliad yr Heddlu

Ar ddydd Gwener Hydref 26ain ymwelodd PCSO Alex Mason a'r ysgol er mwyn trafod parchu eraill yn ystod gwyl Calan Gaeaf a Thân Gwyllt.

App yr Ysgol

Er mwyn derbyn newyddion am yr ysgol yn syth cofiwch edrych ar app yr ysgol. Er mwyn lawrlwytho'r app mae angen mynd i'r app store yna chwilio am ourschoolsapp; ei lawrlwytho a chwilio am Ysgol Clydau.

Arian Cinio

Yn dilyn y gwyliau ni fydd modd talu am ginio gan ddefnyddio arian yn yr ysgol. Rhaid defnyddio system Cashless y sir drwy mewngofnodi ar y we. Os ydych am dderbyn wybodaeth pellach cofiwch gysylltu â'r ysgol.

Arian Tost

Gofynnir yn garedig i chi roi arian tost y disgyblion mewn waled/pwrs gan sicrhau nad yw'n mynd ar goll.

Colofn yr Urdd

Yn ystod y tymor bu'r plant yn cystadlu mewn Twrnament Pêl droed 7 bob ochr ar gaeau pêl-droed Tegryn. Cafwyd gemau agos a chyffrous. Bu un tîm yn cystadlu a'r aelodau oedd Cian Lewis, Elliott Bailey-Williams, Haydn Ditcher, Luke Smith, Callum Chambers, Mitchell Sherwood, Charlie Jackson, Dafydd Davies, Dafydd Owen ac Awen Lewis. Llongyfarchiadau i'r tîm am gyrraedd y rownd gynderfynol.

Tîm pêl-droed

Tîm Cwis Adrannau

Bu plant blynyddoedd 3-6 yn cymeryd rhan yn Jambori yr Urdd yn Theatr y Gromlech Ysgol y Preseli ar ddydd Mercher, Hydref 24ain.

Eleni mynychwyd Cwis Adrannau ym Mhentre' Ifan ar nos Iau, Tachwedd 8fed. Aelodau'r tîm oedd Cian Lewis, Awen Lewis, Dafydd Davies a Dyfan Ifans-Lloyd. Llongyfarchiadau am ddod yn drydydd allan o ddeuddeg tîm.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Sul yr Urdd yng Nghapel Blaenffos ar ddydd Sul, Tachwedd 18fed. Bu Cian Lewis, Awen Lewis, Dafydd Davies, Dyfan Ifans-Lloyd, Gwenno Francis, Cadi Howell a Cerys Davies yn llefaru yn ystod y Gwasanaeth.

Yn ogystal bu nifer o'r plant yn cymeryd rhan yn Oedfa Garolau yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghapel Blaenffos ar Nos Lun, Rhagfyr 3ydd. Diolch i Cian Lewis, Dafydd Davies, Awen Lewis, Alana James, Gwenno Francis, Jasmine Webster, Lilly Robertson-Williams, Cadi Howell, Cerys Davies, Cerys Watkins a Ryan Watkins am fynychu'r digwyddiad.

Aelodau Oedfa Garolau

Aelodau Gwasanaeth Sul yr Urdd

Yn ystod y tymor mae'r Adran wedi bod yn cwrdd bob nos Fawrth o dan arweinyddiaeth Mr S Jones gan gynnal gweithgareddau megis noson Bingo, TGCH a choginio. Bydd yr adran yn ail-ddechrau ar nos Fawrth, Ionawr 15fed.

Cynhelir Cystadleuaeth Chwaraeon Dan Do yr Urdd ar gyfer Adrannau ar ddydd Sadwrn, Ionawr 19eg am 12:30yp yng Nghanolfan Hamdden Crymych.

Os ydych am ddechrau casglu syniadau ar gyfer cystadlaethau Celf a Chrefft yr Eisteddfod, yna 'Bwrlwm' yw'r thema. Ar wefan yr Urdd www.urdd.org cewch syniadau am yr hyn sy'n berthnasol i'r thema.

Cynhelir Eisteddfod Cylch y Frenni yn Theatr y Gromlech Crymych ar ddydd Mercher, Mawrth 20fed. Cynhelir yr Eisteddfod Sir ar ddydd Sadwrn, Mawrth 30ain yn Ysgol Bro Gwaun, Abergwaun.

Rhagrybudd – Bydd cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 ymweld â Chanolfan yr Urdd ym mis Mehefin neu Gorffennaf. Cost yr ymweliad yw £180 ac fe fydd mwy o wybodaeth i bawb yn dilyn y gwyliau.

Newyddion C.A.R Ysgol Clydau

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol C.A.R Ysgol Clydau ar nos Iau, Medi 20fed. Cytunwyd y byddai y mwyafrif yn aros yn eu swyddi am flwyddyn arall gyda Debbie Wise yn Gadeiryddes, Ruth Smith yn Is Gadeirydd, Mrs Dawn Ditcher yn Ysgrifenyddes a Mrs Georgina Davies yn Drysorydd.

Cynhaliwyd y Bingo Nadolig ar Nos Fawrth Rhagfyr 4ydd. Gwnaed elw o £550. Enillwyr y gemau oedd :-

Gem 1 – Llinell – Callum Chambers Gem 2 – Llinell – Nans Phillips Gem 3 – Llinell –Jasmine Webster
Tŷ - Ruth Smith Tŷ -Hannah Bellingham Tŷ - Helena Chambers

Gem 4 – Llinell –Jess Ogden Gem 5 – Llinell – Hannah Saunders Gem Plant – Llinell – Amy Beynon
Tŷ - Catherine Watkins Tŷ - Caroline Tŷ - Katherine Young

Prif Gem – Llinell – Elliott Bailey-Williams Tŷ – Rhodri Lewis

Ar nos Iau, Rhagfyr 20fed aeth grŵp o ddisgyblion o amgylch pentrefi yr ardal i ganu carolau. Ar y noson cynt bu'r disgyblion yn canu o amgylch tai pentref Tegryn. Diolch i bawb a gyfrannodd arian gyda £375 yn cael ei gasglu.

Cofiwch os ydych yn prynu nwyddau dros y we o gwmnioedd Argos, Next, Amazon, Debenhams, John Lewis, Toys R Us, HMV a dros 600 o gwmnioedd arall rydych yn gallu cyfrannu tuag at goffrau C.A.R. Ysgol Clydau drwy gofrestru am ddim ar www.easyfundraising.org.uk gyda Ysgol Clydau School PTA fel eich elusen.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher, 16eg o Ionawr. Croeso cynnes i bawb.

Yma Miss ! Yma Syr !

Unwaith eto eleni rydym yn parhau i edrych ar Bresenoldeb Plant. Ar ddiwedd Tymor yr Hydref cyflwynwyd tystysgrifau i'r canlynol am ganran presenoldeb o 98% neu uwch hyd at ddydd Iau Rhagfyr 20fed:
98% - Abel Dewmartin, Molly King, Rhys Woolley, Katherine Young, Cadi Howell, Henri Owen, Amy Beynon, Charlie Jackson

99% - Dylan Chambers, Kyle Toovey, Ripley Circus, Awen Lewis, Callum Chambers, Cian Lewis.

100%- Elliott Bailey-Williams, Elliemae Fairbairn, Haydn Ditcher, Erin King, Alana James, Luke Smith, Gwenno Francis, Elisha Young, Cerys Davies, Ruby King, Alana Jackson, Ryan Watkins

Gyda chytundeb Llywodraethwyr yr ysgol gosodwyd targed Presenoldeb o 96% am y flwyddyn academaid 2018-19. Presenoldeb yr ysgol am dymor yr Hydref 2018 oedd 95.4%.

Dyddiadau i'r Dyddiadur:-
07/01/2019 – Diwrnod HMS – Dim ysgol i'r Disgyblion
08/01/2019 - Diwrnod HMS – Dim ysgol i'r Disgyblion
15/01/2019 – Adran yr Urdd yn ailddechrau
16/01/2019 – Gwersi Nofio yn ailddechrau – Nofio i ddisgyblion Blynyddoedd 3,4,5 a 6.
16/01/2019 – Cyfarfod C.A.R Ysgol Clydau
19/01/2019 – Cystadleuaeth Chwaraeon Dan Do yr Urdd i Adrannau – Canolfan Hamdden Crymych 12:30yp.
19/02/2019 – Eisteddfod Ysgol
21/02/2019 – Cystadleuaeth Pêl-droed i Adrannau
22/02/2019 – Diwedd Hanner Tymor

Diwrnodau HMS

Bydd yr ysgol yn cau ar y diwrnodau canlynol ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd:-
Dydd Llun Ionawr 7fed Dydd Mawrth Ionawr 8fed Dydd Gwener Ebrill 12fed
Dydd Llun Gorffennaf 22ain

Digwyddiadau'r Tymor

Tro Capel Star oedd hi eleni i gynnal ein Cwrdd Diolchgarwch a gynhaliwyd ar ddydd Iau, Hydref 25ain. Gwasanaeth ar thema'r Hydref oedd eleni gyda £225 yn cael eu gasglu tuag at ymgyrch Apêl Amelia Matters. Diolch hefyd i bawb a gynorthwyodd ar y dydd yn gweini'r te, bisgedi a chacennau.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn parhau i gymryd rhan yn rhaglen Cynllun Gwên Llywodraeth Cymru gyda'r nod o hybu disgyblion i frwsio eu dannedd yn ddyddiol. Ar ddiwedd Tachwedd, yn dilyn asesiad, derbyniodd y disgyblion Gwobr Efydd y Cynllun Gwên.

Ar ddechrauTachwedd ymwelodd Natasha o Hedgley Hedgehogs â'r ysgol er mwyn esbonio eu gwaith o achub a gwella draenogod sâl.

Ar ddydd Mawrth, Tachwedd 13eg mwynhaodd y disgyblion hŷn, ddrama am y Blits a berfformiwyd gan Anwen Carlilse o gwmni Mewn Cymeriad. Cafwyd y cyfle i ddysgu am deimladau'r bobol yn ystod y Blits.


Ymweliad Hedgley Hedgehogs

Drama Mewn Cymeriad – Y Blits

Cyfnod Sylfaen a Gwobr Efydd Cynllun Gwên

Ar ddydd Iau Tachwedd 22ain bu pedwar disgybl yn cymryd rhan yng ngweithdy Chwaraeon a drefnwyd gan Chwaraeon Sir Benfro. Y pedwar disgybl oedd Elliott Bailey-Williams, Haydn Ditcher, Awen Lewis a Dafydd Davies. Ym mis Ionawr bydd Swyddog Datblygu Chwaraeon yn dod i'r ysgol er mwyn hyfforddi disgyblion Blwyddyn 5 a 6.

Ym mis Tachwedd bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar ymweliad ag Eglwys Clydau. Buont yn dysgu am nodweddion gwahanol yr Eglwys ac am waith y Ficer, Jonathan Copse.

Ar ddechrau Rhagfyr, roedd gan yr ysgol stondin yn Ffair Nadolig, Cylch Meithrin Bwlchygroes yn gwerthu Siytni Afalau a chynnal Tombola. Diolch i Cian Lewis, Awen Lewis a Dafydd Davies am gynorthwyo ar y dydd. Gwnaethpwyd elw o £50. Hefyd bu Haydn Ditcher, Charlie Jackson ac Alana Jackson yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Nadolig Star.

Er mwyn cofio am gan mlynedd ers ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, bu'r disgyblion yn brysur yn paentio poteli plastig er mwyn creu arddangosfa pabi coch ar ffrynt yr ysgol.

Dymuna'r ysgol ddiolch i Meagen Circus am ei gwaith celf arbennig ar y wal wrth y brif fynedfa.

Ym mis Gorffennaf bu'r disgyblion yn brysur yn ysgrifennu storiau i'w gynnwys mewn cystadleuaeth yn Sioe Bwlchygroes. Ar ddechrau mis Medi ymwelodd Mrs J George, un o swyddogion y sioe, i rannu'r gwobrau:-
Blwyddyn Derbyn;- 1af: Katherine Young; 2il:Ripley Circus; 3ydd: Gwenno Phillips a Gwilym Lewis
Blwyddyn 1 a 2:- 1af: Cerys Davies; 2il: Amy Beynon; 3ydd: Henri Owen
Blwyddyn 3 a 4:- 1af: Dafydd Davies; 2il: Dafydd Owen; 3ydd: Awen Lewis
Blwyddyn 5 a 6:- 1af: Cian Lewis; 2il : Chloe Drewett; 3ydd: Ffion Bowen

Cafodd plant Blwyddyn 6 y cyfle i ymweld âg Ysgol Preseli ar ddydd Gwener Tachwedd 9fed. Bydd yr ail ymweliad ym mis Chwefror.

Cwis Llyfrau Cymraeg

Bu 2 dîm yn cynrychioli yr ysgol yng nghystadleuaeth Cwis Llyfrau ar ddydd Gwener Rhagfyr 7fed. Bu disgyblion Dosbarth 3 yn astudio 'Fi a Joe Allen' tra fu disgyblion Dosbarth 2 yn astudio 'Rhoswen a'r Eira'. Aelodau tîm Blynyddoedd 5 a 6 oedd Cian Lewis, Jasmine Harris, Haydn Ditcher, Charlie Jackson, Awen Lewis, Dafydd Davies, Erin King a Dafydd Owen. Aelodau tîm Blynyddoedd 3 a 4 oedd Alana James, Dyfan Ifans-Lloyd, Lilly Robertson-Williams, Gwenno Francis, Amy Beynon, Liam Young, Henrii Owen a Callum Williams.

Tim Cwis Llyfrau Dosbarth 2

Tim Cwis Llyfrau Dosbarth 3

Digwyddiadau Diwedd Tymor

Ar nos Iau Rhagfyr 13eg cynhaliwyd ein Cyngerdd Nadolig. Perfformiwyd dwy ddrama eleni eto gyda plant yr Adran Cyfnod Sylfaen yn perfformio Stori Sinderela yn chwilio am barti a'r adran Iau yn perfformio 'Ni a'th Siglwn'.

Cafwyd ein Cinio Nadolig ar ddydd Gwener Rhagfyr 14eg a baratowyd gan Staff Gegin Ysgol y Frenni.

Disgyblion Blwyddyn 6 yn mwynhau'r Cinio Nadolig

Ar ddydd Mawrth Rhagfyr 18fed aethpwyd i Theatr y Torch yn Aberdaugleddau er mwyn gwylio pantomeim Pinochio. Cafodd pawb hwyl a sbri yn y pantomeim.

Cynhaliwyd ein Cyngerdd Miwsig Blynyddol ar brynhawn Mercher Rhagfyr 19eg. Bu plant yr ysgol gyfan yn chwarae nifer o offerynnau gwahanol megis y drymiau, allweddellau neu'r ffidil. Miss Helen Standing sy'n gyfrifiol am addysgu'r plant.

Cynhaliwyd Parti Nadolig y Plant ar ddydd Iau Rhagfyr 20fed gyda Sion Corn yn ymweld ar y dydd Gwener.

Hoffai Staff Ysgol Clydau ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl rieni/gwarcheidwyr yr Ysgol. Diolch am eich cefnogaeth yn ystod 2018.

Bydd yr ysgol yn ail agor ar ddydd Mercher Ionawr 9fed 2019.

Welsh Book Quiz Competition

Two teams represented the school in the Welsh Book Quiz competition on Friday December 7th. Children in Years 5 and 6 studied 'Fi a Joe Allen' while children in Year 3 and 4 studied 'Rhoswen a'r Eira'. Cian Lewis, Jasmine Harris, Haydn Ditcher, Charlie Jackson, Awen Lewis, Dafydd Davies, Erin King and Dafydd Owen represented Year 5 and 6 with Alana James, Dyfan Ifans-Lloyd, Lilly Robertson-Williams, Gwenno Francis, Amy Beynon, Liam Young, Henri Owen a Callum Williams representing Year 3 and 4.

Year 3 and 4 Book Quiz Team

Year 5 and 6 Book Quiz Team

End of Term Activities

On Thursday December 13th our Christmas Concert took place. Two plays were performed during the evening with the Junior pupils performing We will rock you and the foundation class performing Cinderella looking to attend a party.

Christmas dinner

The children enjoyed their Christmas dinner on Friday December 14th, which was prepared at Ysgol y Frenni kitchen.

On Tuesday December 18th the pupils went to watch the Christmas Pantomime at Torch Theatre, Milford Haven. They watched a performance of Pinnochio.

The Annual Musical Concert was held on Wednesday December 19th with children from each class playing different instruments such as the drums, guitar, keyboard or the violins. Miss Helen Standing was responsible for teaching the children.

The children's Christmas party took place on Thursday December 20th with Santa on Friday.

Ysgol Clydau Staff would like to wish parents/guardians a Merry Christmas and a Happy New Year. We appreciate the support given during 2018.

The school will re-open on Wednesday January 9th 2019.